



Canllawiau ar Gynlluniau
Datblygu i Gymunedau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar Gynlluniau Datblygu i Gymunedau

Cynhyrchwyd gan:
Llywodraeth Cymru a
Cymorth Cynllunio Cymru


Cyhoeddwyd: Mai 2022



Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**



Y fframwaith gynllunio yng Nghymru





1. Sut i ddefnyddio'r Canllaw hwn

1.1 Mae hwn yn ganllaw hawdd ei ddarllen i gymunedau sy'n esbonio'r **system cynlluniau datblygu** yng Nghymru.

1.2 Paratowyd y canllaw gan Lywodraeth Cymru (LLC) a Chymorth Cynllunio Cymru (CCC) i'ch helpu i ddeall:

- Y system cynlluniau datblygu
- Sut mae cynlluniau'n cael eu paratoi, a
- Phryd gallwch chi ymgysylltu â'r broses

1.3 Gall y system cynlluniau datblygu ymddangos yn ddryslyd ac nid yw'r canllaw hwn yn mynd i ddelio â phob sefyllfa. Fodd bynnag, bydd yn darparu trosolwg cyffredinol a helpu i esbonio'r system i chi, yn cynnwys pwy i ofyn am fwy o wybodaeth a chysylltiadau i ganllawiau ac adnoddau ychwanegol.

1.4 Gellir darllen y canllaw **yn ei gyfanrwydd** neu efallai byddech yn dymuno canolbwyntio ar **adrannau unigol** a'r gwahanol fathau o gynlluniau datblygu.

1.5 Gall y geiriau **mewn ysgrifen fras las** fod yn fwy anodd eu deall. Gallwch weld beth yw ystyr y geiriau yn yr eirfa ar ddiwedd y canllaw hwn.

1.6 Mae'r canllaw hwn yn cymryd lle y canllaw blaenorol Cynllunio eich Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2006.





2. Cynnwys

Adran 3 : Rhestr y Talfyriadau	Tudalen 5
Adran 4 : Cyflwyniad i'r System Cynlluniau Datblygu yng Nghymru	Tudalen 6
Adran 5 : Deddfwriaeth, Polisi a Chanllaw: Trosolwg, Cysylltiadau ac Adnoddau Defnyddiol	Tudalen 10
Adran 6 : Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040	Tudalen 14
Adran 7 : Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)	Tudalen 17
Adran 8 : Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC)	Tudalen 23
Adran 9 : Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)	Tudalen 25
Adran 10 : Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a Chynlluniau Lleoedd	Tudalen 31
Adran 11 : Rôl aelodau etholedig yn y broses gynllunio	Tudalen 34
Adran 12 : Cysylltiadau a Gwybodaeth ychwanegol	Tudalen 35
Adran 13 : Geirfa	Tudalen 36



3. Rhestr y Talfyriadau

AA	Adroddiad Adolygu
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
AMB	Adroddiadau Monitro Blynnyddol
AG	Arfarniad o Gynaliadwyedd
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
C-BC	Cyd-bwyllgor Corfforedig
CC	Cytundeb Cyflawni
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
CCC	Cymorth Cynllunio Cymru
CLDI	Cynllun Datblygu Lleol
CDLIC	Cynllun Datblygu Lleol Cryno
CDS	Cynllun Datblygu Strategol
DCPG	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd)
LIC	Llywodraeth Cymru
NCT	Nodyn Cyngor Technegol
PCC	Polisi Cynllunio Cymru



4. Cyflwyniad i'r System Cynlluniau Datblygu yng Nghymru



4.1 Ydych chi rywdro wedi dweud wrth eich hun?

- “Doeddwn i ddim yn gwybod eu bod nhw'n adeiladu yna!”
- “Pam maen nhw wedi gallu adeiladu yna?”
- “Wnaeth neb ofyn i mi am y datblygiad yma!”

4.2 Os ydych chi wedi gofyn unrhyw un o'r cwestiynau yma i chi'n hun yna bydd y canllaw hawdd ei ddarllen hwn yn esbonio'r system cynlluniau datblygu a sut gallwch chi gymryd rhan. Trwy gymryd rhan byddwch yn helpu llunio'ch cymuned trwy **gynllunio nawr am y dyfodol**.



Beth yw Cynllun Datblygu?

4.3 **Arweinir** y system gynllunio yng Nghymru gan **gynlluniau datblygu**, sy'n golygu bydd cynlluniau datblygu'n bwysig iawn wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Unwaith bydd cynllun datblygu wedi ei **fabwysiadu**, gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu'n rhoi mesur o sicrwydd ynghylch pa fath o ddatblygiad a fydd, neu na fydd, yn cael ei ganiatáu mewn gwahanol leoliadau dros **gyfnod y cynllun**.

4.4 Yn y system cynlluniau datblygu yng Nghymru mae **tair lefel**, (gweler 4.7 a 4.10 isod) gyda chynlluniau'n cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Golyga hyn, yn y pen draw, bydd y 'cynllun datblygu' ar gyfer ardal yn cynnwys y tri chynllun yma.

4.5 Bydd y canllaw hwn yn canolbwyntio ar gynlluniau datblygu sydd wedi eu paratoi ar lefel rhanbarthol a lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu paratoi gan **Awdurdodau Cynllunio Lleol** a **Chyd-bwyllgorau Corfforaethol** ac maent yn fwy manwl o ran natur ac yn cynnwys polisiâu, cynigion a dosraniad tir a fydd yn ffurfio'ch cymuned yn uniongyrchol nawr ac yn y dyfodol.

4.6 Trafodir diben cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol ar wahân nes ymlaen yn y canllaw hwn ond eu prif rôl yw darparu fframwaith polisi sy'n:

- Nodi **graddfa twf** yn cynnwys y nifer o dai a swyddi
- Gosod allan y **strategaeth ofodol** a lleoliadau i'w datblygu yn y dyfodol
- Dosrannu tir ar gyfer **datblygiadau newydd** yn cynnwys safleoedd tai a chyflogaeth
- Nodi darpariaeth **seilwaith newydd** yn cynnwys ffyrdd ac ysgolion
- Nodi tir i'w **warchod** rhag ei ddatblygu
- Sicrhau dyluniad da a chreu lle

Amcan allweddol y system datblygu cynllun yng Nghymru yw sicrhau bod cynlluniau datblygu'n seiliedig ar ymrwymiad ac **ymgysylltiad cymunedol cynnar ac effeithiol.**

I fod yn effeithiol, mae'n rhaid sefydlu cynllun datblygu ar gonsesws eang ar y **strategaeth ofodol a'r polisiâu a'r cynigion oddi mewn iddo.**

Mae cyfathrtebu effeithiol rhwng yr **Awdurdod Cynllunio Lleol a'r gymuned leol yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.**



Beth yw'r Tair Lefel sydd yn y system Cynlluniau Datblygu yng Nghymru?

4.7 Y tair lefel sydd yn y system cynlluniau datblygu yw:

LEFEL 1 CENEDLAETHOL



Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Y cynllun hwn yw'r lefel uchaf mewn cynlluniau datblygu; caiff ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol yn Chwefror 2021 ac mae'n llunio rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan.

LEFEL 2 RHANBARTHOL



Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)

Adeiladir ar fframwaith y cynllun cenedlaethol gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) sydd wedi eu paratoi gan **Gyd-bwyllgorau Corfforedig (C-BC)** ar lefel ranbarthol. Bydd y cynlluniau'n canolbwyntio ar faterion sy'n croesi ffiniau **Awdurdodau Cynllunio Lleol** ac yn edrych ar sut mae pobl yn y **pedwar rhanbarth** yng Nghymru yn treulio eu bywydau bob dydd - wrth eu gwaith, eu patrymau cymudo, siopa a gweithgareddau hamdden.

LEFEL 3 LLEOL



Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a Chynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC)

Adeiladir ar fframwaith cynlluniau cenedlaethol a ranbarthol gan Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) sydd wedi eu paratoi gan **Awdurdodau Cynllunio Lleol**. Bydd CDLI yn canolbwyntio ar faterion, polisiau a chynigion ymhob ardal awdurdod ar draws Cymru. Hefyd bydd Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC) yn cael eu paratoi yn dilyn **mabwysiadu** CDS a bydd y cynllun hwn yn fyrrach ac â mwy o ffocws o ran ei natur, gan fod graddfa a lleoliad twf eisoes wedi ei osod yn y CDS a **fabwysiadwyd** ar gyfer pob ardal **Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)**.

4.8 Mae'n bwysig pwysleisio nes y bydd CDS wedi ei **fabwysiadu** bydd **Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i baratoi ac adolygu eu CDLI**. Dim ond pan fydd CDS wedi ei **fabwysiadu** y gall yr awdurdodau ddechrau paratoi CDLI Cryno. Rhoddir esboniad o'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath o gynllun datblygu lleol nes ymlaen yn y canllaw hwn.

4.9 **Ar adeg cyhoeddi'r canllaw hwn, mae dau gynllun ar wahân mewn cynllun datblygu ar gyfer ardal:** (1) Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 a (2) CDLI. Fel hyn y bydd hi nes bydd CDS wedi ei **fabwysiadu** (rhagwelir y bydd hyn yn digwydd o 2027/2028) a dilynir hyn gan CDLIC (rhagwelir y bydd hyn yn digwydd o 2029/2030). Tra **na'd oes CDS na CDLIC wedi eu paratoi hyd yma**, bydd y sefyllfa yma'n newid yn y dyfodol. Wrth i fwy o gynlluniau datblygu gael eu paratoi, bydd y canllaw hwn yn helpu esbonio'r prosesau paratoi a sut y gallwch ac y dylech chi ymgysylltu â nhw.




Beth yw Cydymffurfiaeth Gyffredinol a pham mae'n bwysig?

4.10 Mewn cyfraith mae'n un o'r gofynion bod cynllun datblygu yn gorfod bod mewn **cydymffurfiaeth gyffredinol** â'r cynllun(iau) a **fabwysiadwyd** yn y lefel neu'r lefelau uwch ei ben (gweler Diagram 1). Mae hyn yn golygu pan fydd cynllun datblygu'n cael ei baratoi bod yn rhaid iddo gefnogi egwyddorion cyffredinol y cynllun lefel uwch a **fabwysiadwyd**, yn cynnwys y **strategaeth ofodol**, a graddfa a lleoliad twf. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod cymunedau a'u cynrychiolwyr yn ymgysylltu a chyflwyno sylwadau (os yn briodol) ar bob lefel yn y system gynllunio.

- **Esiampl 1:** Pan mae CDS yn cael ei baratoi mae'n rhaid i'r cynllun fod mewn cydymffurfiaeth gyffredinol â'r cynllun yn y lefel uwch, sef Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.
- **Esiampl 2:** Unwaith bydd CDS wedi ei **fabwysiadu** yna gellir paratoi CDLIC. Mae'n rhaid i CDLIC fod mewn cydymffurfiaeth gyffredinol â chynllun y lefel uwch, sef CDS ar gyfer y rhanbarth, ynghyd â Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.
- **Esiampl 3:** Nes bydd y CDS wedi ei **fabwysiadu**, bydd awdurdodau'n paratoi CDLL. Mae'n rhaid i CDLL fod mewn cydymffurfiaeth gyffredinol â'r cynllun lefel uwch sef, ar hyn o bryd, Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Diagram 1: Lefelau'r Cynlluniau Datblygu yng Nghymru a Chydymffurfiaeth Gyffredinol





5. Deddfwriaeth, Polisiâu a Chanllaw: Trosolwg, Cysylltiadau ac Adnoddau Defnyddiol



5.1 Wrth baratoi cynllun datblygu mae llawer o ddeddfwriaeth, polisiâu a chanllawiau sy'n rhaid eu dilyn gan [ACLI](#) a [C-BC](#). Yn yr adran hon ceir esboniad o rai o'r rhain ynghyd ag arwyddbost i ddogfennau polisiâu a chanllawiau eraill sydd efallai o ddiddordeb i chi. At ddibenion y canllaw hwn, dim ond **deddfwriaeth, polisiâu a chanllawiau allweddol** sy'n tanategu paratoi cynlluniau datblygu sydd wedi eu nodi. Bydd eraill a diweddariadau i'r hyn sy'n bodoli eisoes unwaith y cyhoeddir y canllaw hwn. Pe dymunwch ddarganfod mwy dylech gysylltu â'r tîm cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi'r cynllun datblygu. Ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol yn Adran 11 y canllaw hwn.

5.2 Ceir cyfres o ddogfennau sy'n anelu at ddarparu **datblygiadau cynaliadwy** trwy'r system gynllunio, ac mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau datblygu. Gweler esboniad o'r ddeddfwriaeth, polisiâu a chanllawiau allweddol sy'n benodol i gynlluniau datblygu yn y tabl canlynol:



Tabl 1: Deddfwriaeth, Polisiâu a Chanllawiau Allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu

Deddfwriaeth	Deddfwriaeth Sylfaenol		
	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Polisi Cenedlaethol	Is ddeddfwriaeth		
	Rheoliadau CDS a CDLI	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)	Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
Y Cynllun Datblygu	Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Nodiadau Cyngor Technegol Cylchlythyrau Llythyrau Gweinidogion		
	Cynlluniau Llesiant Strategaethau, Cynlluniau a Thystiolaeth Lleol / Rhanbarthol		
Canllawiau Cynlluniau Datblygu a CDS	Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040		
	Cynlluniau Datblygu Lleol Rhanbarthol a Lleol CDS, CDLI, CDLIC		
Canllawiau Cynlluniau Datblygu a CDS	Llawlyfr CDS <i>i'w baratoi gan Lywodraeth Cymru</i>		
	Llawlyfr Cynlluniau Datblygu CCA a Chynlluniau Cynefin		

Deddfwriaeth Sylfaenol

Deddfwriaeth Sylfaenol	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.3 Mae'r Ddeddf yn dylanwadu ar dair lefel y cynlluniau datblygu ac yn golygu bod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal **datblygiadau cynaliadwy**, sy'n golygu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu **cynaliadwy**, sydd wedi ei anelu at gyflawni'r saith nod llesiant. Mae'n ofynnol bod pob corff cyhoeddus, sy'n cynnwys cyrff creu cynlluniau Llywodraeth Cymru, **C-BC** ac **Awdurdodau Cynllunio Lleol**, yn gosod eu hamcanion eu hunain sy'n cyfrannu hyd yr eithaf at y **saith nod** ac yna i gymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn.

5.4 Er mwyn arddangos eu bod wedi gweithredu yn unol ag egwyddor **datblygu cynaliadwy** (cyflawni anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion eu hunain), mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd ystyried y pum ffordd o weithio. Rhestrir y **pum ffordd o weithio** isod gyda gwybodaeth ychwanegol ym Mhennod 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.



Diagram 2: Nod llesiant



Y pum ffordd o weithio:

- 1. Meddwl hir dymor:** Ystyried sut gall yr hyn rydyn ni'n ei wneud nawr effeithio ar gymunedau a gwasanaethau yn y dyfodol.
- 2. Rhwystro:** Gweithredu i rwystro problemau rhag digwydd neu waethygu.
- 3. Integreiddiad:** Ystyried sut gall amcanion llesiant gyfrannu at nodau llesiant ac effeithio ar amcanion cyrff cyhoeddus.
- 4. Cydweithrediad:** Gweithio gydag eraill i gyflawni'r amcanion llesiant.
- 5. Ymrwymiad:** Ymrwymo pobl i gyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau.

5.5 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi cynllunio defnydd tir a **chreu lleoedd** fel maes o flaenoriaeth. Ceir mwy o wybodaeth yn:

https://www.futuregenerations.wales/cy/priority_areas/planning/

Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

5.6 Mae DCPHG 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu ar gyfer y lefelau newydd o gynlluniau datblygu ac yn cynnwys pwerau i baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r cynlluniau hyn.

Mae DCPHG yn cyfeirio at Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 fel y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Mae'r ddau enw'n cyfeirio at yr un cynllun datblygu. At ddiben y canllaw hwn, cyfeirir at y cynllun fel Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.


Sustainability Appraisal (SA), Strategic Environmental Assessment (SEA) and Habitats Regulation Assessment (HRA)

5.7 Mae'n ofynnol bod pob cynllun datblygu yn cael ei gefnogi gan **Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)**. Bydd yr AG / AAS a'r ARhC yn edrych ar effeithiau'r cynllun ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn ogystal â'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'n rhaid dilyn y gweithdrefnau a osodir yn y rheoliadau er mwyn **mabwysiadu'r** cynllun datblygu.

5.8 Mae'r AG / AAS a'r ARhC wedi eu hintegreiddio'n llwyr yn y broses creu cynllun, o gamau cynnar paratoi cynllun. Cewch gyfle i wneud sylw ar y dogfennau hyn yn y **camau ymgynghori ffurfiol**, a esbonnir nes ymlaen yn y canllaw hwn. Ceir mwy o wybodaeth am AG / AAS ac ARhC ym Mhennod 4 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.



Is-ddeddfwriaeth




Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

5.9 Mae'r rheoliadau'n gosod y broses ar gyfer paratoi'r CDS ymhob un o'r pedwar rhanbarth ar draws Cymru gan **C-BC** a gellir eu gweld [yma](#).

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)


5.10 Mae'r rheoliadau'n gosod y broses ar gyfer paratoi CDLL ar draws Cymru gan **Awdurdodau Cynllunio Lleol** un ai'n unigol neu ar y cyd gan ddau neu fwy o awdurdodau. Cyhoeddwyd y rheoliadau gwreiddiol yn 2005 a gellir eu [gweld yma](#) a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r diweddariad a gyhoeddwyd yn 2015 [yma](#).

Polisi Cynllunio Cenedlaethol



5.11 Mae'n rhaid paratoi pob cynllun datblygu yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a'u cynnwys yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) gyda'r argraffiad diweddaraf sydd ar gael i'w weld [yma](#).

Development Plan Guidance



Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

5.12 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn ddogfen ganllaw a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth baratoi, monitro ac adolygu CDLL ac mae ar gael i'w weld [yma](#).

Llawlyfr CDS

5.13 Bydd Llawlyfr CDS yn ddogfen ganllaw newydd wedi ei chynhyrchu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth baratoi, monitro ac adolygu CDS a disgwyllir ei chyhoeddi ar **ddiwedd 2022**.

Tra mai amcan y ddwy ddogfen ganllaw yw bod swyddogion cynllunio ac arbenigwyr eraill yn eu defnyddio, maen nhw'n parhau i fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i gymunedau, ac yn cynnwys llawer o wybodaeth gynorthwyol sydd tu hwnt i sgôp y canllaw hwn.



6. Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040



6.1 Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2021 a dyma lefel uchaf cynlluniau datblygu yng Nghymru. Gellir cael gafael ar Cymru'r Dyfodol ac adnoddau cynorthwyol eraill megis canllaw hawdd ei ddarllen, a chwestiynau a ofynnir yn aml, [yma](#).

Beth yw Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040?

6.2 Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod y fframwaith ar gyfer cynllunio a'r newid a'r datblygiad angenrheidiol yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Cefnogir y fframwaith gan **11 Canlyniad** sy'n gweithredu fel datganiad ar ble rydyn ni, Llywodraeth Cymru, yn dymuno bod ymhen ugain mlynedd, er mwyn sicrhau bod datblygiadau o ansawdd yn cael eu lleoli yn y mannau cywir ac am y rhesymau cywir.



6.3 Bob **pum mlynedd**, bydd Llywodraeth Cymru'n paratoi, a chyhoeddi, adolygiad o Cymru'r Dyfodol a gosod y datblygiadau ar gyflawni'r 11 Canlyniad. Mae'n rhaid i holl gynlluniau datblygu ar lefelau is fod mewn **cydymffurfiaeth gyffredinol** â Cymru'r Dyfodol. Bydd y cynllun yn tywys penderfyniadau cynllunio yn eich cymuned ar bethau fel:

- Tai
- Ffyrdd, rheilffyrdd a llwybrau beicio
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Cyfleusterau iechyd
- Cyflenwadau ynni
- Di-garboneiddio
- Ynni adnewyddadwy
- Rhyngrwyd
- Yr holl wasanaethau eraill sydd ar bobl eu hangen o ddydd i ddydd

Sut fydd Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn llunio lefel is y cynlluniau datblygu?

6.4 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi **tair Ardal Dwf Genedlaethol** ble bydd ffocws ar hyrwyddo cyfleoedd strategol ar gyfer cyflogaeth a chartrefi a buddsoddiad mewn seilwaith. Tu allan i'r ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol dylai'r ffocws fod ar gyflawni anghenion datblygu yn lleol. Cefnogir y tair Ardal Dwf Genedlaethol yma gan dwf a datblygiad yn y **tair Ardal Dwf Rhanbarthol**. Yn yr ardaloedd hyn mae canolfannau pwysig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau, siopau a thwristiaeth. Bydd yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol fel ei gilydd yn hysbysu paratoi'r cynlluniau datblygu lefel is.

Ardaloedd Twf Cenedlaethol:

1. Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd
2. Bae Abertawe a Llanelli
3. Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

Ardaloedd Twf Rhanbarthol:

1. Y De Orllewin
2. Y Canolbarth
3. Y Gogledd

6.5 Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn rhannu u Cymru gyfan i **bedwar rhanbarth** ac mae pob rhanbarth wedi ei gydnabod trwy ei heriau a'i gyfleoedd unigryw ei hun. Archwilir yr heriau a'r cyfleoedd hyn ymhellach wrth i'r pedwar rhanbarth baratoi CDS ar faterion sy'n croesi ffiniau **Awdurdodau Cynllunio Lleol**. Bydd y materion hyn yn cynnwys nodi ardaloedd ar gyfer twf yn y dyfodol, yr angen am dai, datblygiad economaidd, trafnidiaeth a **Seilwaith Gwyrdd**. Bydd CDS yn cael ei baratoi ymhob un o'r pedwar rhanbarth canlynol ac yn cynnwys yr **Awdurdodau Cynllunio Lleol** isod:

1. Y Gogledd:

Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Eryri a Wrecsam

2. Y Canolbarth:

Bannau Brycheiniog (rhan), Ceredigion a Phowys

3. Y De Orllewin:


Bannau Brycheiniog (rhan), Sir Gaerfyrddin, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Arfordir Sir Benfro ac Abertawe

4. Y De Ddwyrain:

Blaenau Gwent, Bannau Brycheiniog (rhan), Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg



Diagram 3: Pedwar Rhanbarth CDS yng Nghymru





7. Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)



7.1 Wrth i ni symud ymlaen tuag at ddull strategol o gynllunio, byddwch yn gweld paratoi CDS, gan **C-BC**, yn y pedwar rhanbarth ar draws Cymru fel y'i gwelir yn Niagram 3. Disgwylir dechrau gwaith ar y CDS yn 2022 a dylai gymryd oddeutu pum mlynedd i'w baratoi.

Beth yw Cynllun Datblygu Strategol?

7.2 Bydd CDS yn gosod y cynigion strategol a pholisïau ar ddefnydd tir ar gyfer datblygu tir dros **gyfnod o ugain mlynedd** o leiaf. Bydd CDS yn cael ei baratoi i ddelio â phob un o'r pedwar rhanbarth. Trwy ddelio ag ardal sy'n fwy nag **Awdurdodau Cynllunio Lleol** unigol, gall y CDS wella sut mae'r system gynllunio yn delio â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau ac yn gallu adlewyrchu'n fwy cywir sut mae pobl a chymunedau'n byw eu bywydau bob dydd nawr ac yn y dyfodol.



7.3 Bydd y CDS yn ystyried y materion strategol canlynol sy'n berthnasol i'r rhanbarth. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu â'r CDS, hyd yn oed os nad yw'n effeithio'n uniongyrchol arnoch chi.


- Graddfa a lleoliad twf tai a chyflogaeth
- Safleoedd datblygu strategol i dai a chyflogaeth a'u hegwyddorion **creu lleoedd**
- Llwybrau **Seilwaith Gwyrdd** strategol
- Seilwaith trafndiaeth
- Dull cydlynol ynghylch dynodiad amgylcheddol, ynni, mwynion a gwastraff.
- **Strategaethau gofodol ACLI** unigol i ddarparu'r fframwaith ar gyfer, ac i alluogi, paratoi CDLIC unwaith bydd CDS wedi ei **fabwysiadu**.

Beth yw'r Prif Gamau yn y Broses CDS a sut allaf i gymryd rhan?

7.4 Mae llawer wedi ei ddysgu hyd heddiw gan **Awdurdodau Cynllunio Lleol** a chymunedau gan y broses CDLL. Bydd y broses hon bron yr un fath â pharatoi CDS, gyda'r unig wahaniaeth allweddol yn un o raddfa, oherwydd bydd CDS yn delio ag ardal ddaearyddol fwy o faint. Bydd gan broses paratoi CDS yr un camau allweddol a chyfleoedd i ymgynghoriad ac **ymgysylliad â'r cyhoedd** â'r broses CDLL.

7.5 Gwelir prif gamau'r broses CDS a phryd gallwch chi gymryd rhan yn y diagram isod:

Diagram 4: Camau Allweddol yn y Broses CDS



7.6 Bydd y **broses CDS yn ymwneud â llawer o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd** i helpu llunio a dylanwadau ar y cynllun o'r camau cynnar.



Tra bydd y CDS yn canolbwyntio ar faterion strategol, pynciau a lleoedd sydd efallai tu hwnt i ardal eich cymuned a'r **Awdurdod Cynllunio Lleol**, mae'n dal i fod yn **bwysig eich bod yn ymgysylltu â'r broses** oherwydd bydd cynnwys y CDS yn llunio a dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys y CDLL ar y lefel is.

Ni sonnir **am bob lle** mewn CDS oherwydd ffocws y cynllun fydd ardaloedd i'w newid. Os na nodir eich cymuned neu'ch ardal leol yna mae'n dal yn bwysig eich bod yn ymgysylltu â'r broses.

7.7 Bydd y canllaw hwn nawr yn delio â'r camau allweddol yn Niagram 4 ac esbonio pob cam yn fyr a sut gallwch ymgysylltu:

Y Cytundeb CyflawniA

Beth yw'r cam hwn?

7.8 Bydd pob **C-BC** yn paratoi **Cytundeb Cyflawni (CC)** ar gychwyn y broses paratoi cynllun. Mae dwy ran i'r CC:

1. **Amserlen** ar gyfer paratoi'r CDS
2. **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)**

7.9 Mae'r CC yn ddogfen bwysig oherwydd mae'n gosod yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun ac yn nodi pwy all ymgysylltu â'r broses, ar ba gam, ynghyd â dulliau'r ymgynghoriad. Mae hefyd yn esbonio sut bydd ymatebion i ymgynghoriad ar y cynllun yn cael eu hystyried ynghyd â'r adborth a gewch a sut gellir cael gfael ar hwn.

Sut allaf i ymgysylltu?

7.10 Mae'n bwysig eich bod yn dod yn gyfarwydd â'r CC ac yn cadw i fyny ag unrhyw welliannau. Efallai y byddwch yn dymuno **cofrestru eich diddordeb** gyda'r **C-BC** er mwyn eich ychwanegu at y gronfa ddata ymgynghori a'ch cadw yn y cylch ynghylch sut mae'r cynllun yn dod yn ei flaen. Bydd y CC ar gael i'w archwilio gan y **C-BC** ar ei wefan a'i brif swydd(i). Y **C-BC** fydd yn penderfynu ar y dulliau o ymgysylltu. Yn gyffredinol, byddant yn cynnwys fforymau cyhoeddus, cyfarfodydd lleol ac arddangosfeydd, sesiynau galw i mewn, grwpiau ffocws, cylchlythyrau, taflenni a phosteri a dulliau ymgysylltu ar y we (e.e. Facebook a Thrydar).

Ymgynghoriad y Strategaeth a FfefrirA

Beth yw'r cam hwn?

7.11 Bydd y Strategaeth a Ffefrir a thystiolaeth gefnogol, sy'n cynnwys yr AG/AAS a'r ARhC (os yn berthnasol) ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am o **leiaf 6 wythnos**.

7.12 Dylai'r Strategaeth a Ffefrir osod y:

- Materion, gweledigaeth ac amcanion cyfredol
- Twf poblogaeth, tai a swyddi a ffefrir
- Opsiynau twf strategol
- Strategaeth ranbarthol ofodol eang
- Safleoedd strategol a / neu ardaloedd i'w datblygu (pan fo'n berthnasol)
- Defnydd tir strategol a pholisïau'n seiliedig ar bynciau
- Cefnogir y Strategaeth a Ffefrir gan nifer o ddogfennau â thystiolaeth sylfaenol, yn cynnwys y safleoedd / ardaloedd a nodwyd i'w datblygu yn y **Gofrestr Safleoedd a Lleoliadau Strategol Ymgeisiol**.



Sut allaf i ymgysylltu?

Mae hwn yn gam pwysig i chi a'ch cymuned. Hwn fydd eich cyfle i roi eich safbwyntiau i'r **C-BC** a dylanwadu ar y cynllun maen nhw'n ei gynhyrchu, yn gynnar yn y broses. Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno unrhyw sylwadau cyn dyddiad terfynol yr ymgynghoriad a osodir gan y **C-BC**.

7.13 Fel rhan o'r ymgynghoriad, gallwch roi sylwadau ar y Strategaeth a Ffeirir a'r dystiolaeth gefnogol. Cyhoeddir manylion llawn yr ymgynghoriad mewn **Datganiad o Faterion Cyn-Adnau**. Bydd hwn ar gael i'w weld mewn copi caled yn y brif swyddfa, prif swyddfa unrhyw **Awdurdod Cynllunio Lleol** yn rhanbarth y **C-BC** a lleoliadau eraill a nodir yn y CC, ac ar wefan y **C-BC**.

7.14 Os byddwch yn cyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Strategaeth a Ffeirir bydd yn cael ei gynnwys yn **Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol** y **C-BC**. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y prif faterion a godwyd a sut byddant yn dylanwadu ar y cynllun yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgynghoriad Strategaeth a Ffeirir ddod i ben.

Ymgynghoriad Cynllun AdnauA

Beth yw'r cam hwn?

7.15 Mae'r Cynllun Adnau yn fersiwn ddrafft llawn o'r CDS ac ystyrir y cynllun yn '**gadarn**' gan y **C-BC**. Bydd y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol, sy'n cynnwys yr AG/AAS a'r ARhC ar gael mewn ymgynghoriad cyhoeddus am **o leiaf 6 wythnos**.

7.16 Dylai'r Cynllun Adnau osod:

- Y materion, y weledigaeth a'r amcanion
- **Y Strategaeth ofodol** derfynol ac is-strategaethau ar gyfer pob **ACLI** o fewn y rhanbarth.
- Graddfa twf y boblogaeth, tai a swyddi yn y rhanbarth ac ymhob **ACLI**
- Safleoedd strategol a dynodiadau
- Polisiâu strategol ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth, manwerthiant, trafnidiaeth, dynodiadau amgylcheddol, ynni, mwynau a gwastraff
- Fframwaith fonitro
- Map cynigion
- Cefnogir y Cynllun Adnau gan nifer o ddogfennau â sail dystiolaeth yn cynnwys asesiad llawn a chyfiawnhad i leoliadau / safleoedd strategol sydd wedi eu cynnig i'w datblygu yn y **Gofrestr Safleoedd a Lleoliadau Strategol Ymgeisiol**.

Sut allaf i ymgysylltu?

7.17 Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwch yn gallu cynnig sylwadau ar y Cynllun Adnau a'r dystiolaeth gefnogol. Cyhoeddir manylion llawn yr ymgynghoriad mewn **Datganiad o Faterion Adnau**. Bydd y datganiad ar gael i'w weld yn y prif swyddfeydd ac ar wefan **C-BC**.

7.18 Hefyd bydd y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol ar gael i'w weld ym mhrif swyddfeydd **C-BC**, prif swyddfa unrhyw **Awdurdod Cynllunio Lleol** yn rhanbarth y **C-BC** ac ar ei wefan. Gall copïau eraill fod ar gael mewn lleoliadau o osodir yn y CC.

7.19 Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau i'r **C-BC** ar y Cynllun Adnau yna mae'n rhaid cyflwyno'ch sylwadau cyn y dyddiad terfynol er mwyn ystyried eu bod '**wedi eu cyflwyno**'. Gelwir y sylwadau hyn yn **sylwadau** a bydd ffurflen safonol ar gael oddi wrth y **C-BC** i'ch helpu gydag unrhyw sylwadau yr hoffech eu cynnig. Bydd pob sylw sydd wedi '**wedi eu cyflwyno**' yn cael eu hystyried gan y **C-BC** mewn **diweddariad i'r Adroddiad Ymgynghoriad** o'r cam



Strategaeth a Ffeirir. Mae sylwadau sydd **'wedi eu cyflwyno'** yn sylwadau a gyflwynir o fewn yr amserlenni gofynnol ac yn berthnasol yn uniongyrchol i'r polisiau a'r cynigion a gynhwysir o fewn y cynllun datblygu sy'n destun i ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgynghoriad Adnau ddod i ben, a bydd yn ffurfio rhan o'r dogfennau a gyflwynir (a restrir ym Mhennod 6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) i'w archwilio.

7.20 Bydd copi o'r holl sylwadau ar gael i'w gweld yn yr un lleoliadau â'r Strategaeth a Ffeirir ac ar wefan **C-BC**. Yn dilyn yr ymgynghoriad Adnau, bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r cynllun yn fater i'r Arolygydd annibynnol i'w hystyried pan brofir y cynllun mewn archwiliad.

Public Examination

Beth yw'r cam hwn?

7.21 Unwaith fydd yr ymgynghoriadau ffurfiol drosodd, cyflwynir y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol i'w harchwilio'n gyhoeddus. Apwyntir Arolygydd / Arolygwyr ar ran Gweinidogion Cymru i gynnal **archwiliad annibynnol** o'r cynllun. Bydd yr archwiliad yn asesu a gyflawnwyd gofynion paratoi'r cynllun ac a fydd y CDS yn cyflawni'r tri phrawf **'cadernid'** a osodir ym Mhennod 6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

7.22 Bydd yr archwiliad yn cynnwys **sesiynau llafar** sef **trafodaeth gyhoeddus** o amgylch bwrdd ar y materion a nodwyd gan yr Arolygydd / Arolygwyr ar ôl iddo/iddynt ddarllen y dogfennau a gyflwynwyd, a'ch sylwadau. Bydd yr archwiliad yn sicrhau bod y cynllun yn seiliedig ar wybodaeth a meddwl **'cadarn'** a bod yr holl bryderon wedi eu hystyried.

Sut allaf i ymgysylltu?

7.23 Pan gyflwynir y CDS i'w archwilio gan y cyhoedd, rhoddir cyhoeddusrwydd i hyn gan y **C-BC**. Bydd y dogfennau a gyflwynir yn cael eu hanfon at yr Arolygydd / Arolygwyr a bydd hyn yn cynnwys yr Adroddiad Ymgynghoriad wedi ei ddiweddarau, ynghyd ag unrhyw sylwadau a wnaethoch chi ar y Cynllun Adnau. Bydd y dogfennau a gyflwynwyd ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd y **C-BC**, prif swyddfa unrhyw **Awdurdod Cynllunio Lleol** yn rhanbarth y **C-BC** ac ar ei wefan. Gall copïau eraill fod ar gael mewn lleoliadau a nodir yn y CC.

7.24 Yn seiliedig ar ganlyniad yr Arolygydd / Arolygwyr yn darllen y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd, bydd yr Arolygydd / Arolygwyr yn penderfynu pa faterion i'w trafod yn yr archwiliad a sut gellir clywed y rhain. Gall y sesiynau archwiliad barhau am sawl wythnos neu fwy. Mae gwybodaeth bellach ar gyflwyno'r cynllun a'r weithdrefn archwilio ar gael i'w [gweld yma](#) gan Benderfyniadau Cynllunio Amgylcheddol Cymru (PCAC).

7.25 O leiaf **chwe wythnos** cyn cychwyn yr archwiliad bydd **Swyddog Rhaglen** yr archwiliad yn cysylltu â chi a gofyn a ydych am gymryd rhan. Gallwch ond gymryd rhan os wnaethoch chi gyflwyno sylwadau wedi **'wedi eu cyflwyno'** ar ymgynghoriad y Cynllun Adnau. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan mewn sesiwn / sesiynau gwrandawriad, gallwch ddewis p'un ai i ddibynnu ar **ddatganiad ysgrifenedig** mewn ymateb i gwestiynau'r Arolygydd / Arolygwyr a / neu drafod y materion **yn llafar** yn y sesiynau gwrandawriad. Mae'r ddau ddull yn gyfartal. Mae'n bwysig pwysleisio y gallwch fynychu'r archwiliad a gwrandao ar yr achos hyd yn oed os nad ydych yn cymryd rhan.

7.26 Bydd gwefan yr archwiliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ar yr archwiliad fydd ei hangen arnoch. Mae'n **bwysig eich bod yn cadw i fyny â'r broses archwilio** er mwyn monitro'r datblygiadau a'r diweddariadau diweddaraf.



Adroddiad yr Arolygwyr a Mabwysiadu

Beth yw'r cam hwn?

7.27 Ar ddiwedd y sesiynau archwiliad, bydd yr Arolygydd / Arolygwyr yn paratoi adroddiad ar **'gadernid'** y cynllun a gyflwynwyd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r CDS a'r rheswm am y newidiadau hyn. Bydd y canlyniadau yn **Adroddiad yr Arolygwyr** yn **orfodol** ar y **C-BC** a fydd yn gorfod gwneud y newidiadau a argymhellwyd. Bydd y **C-BC** yn cynnal pleidlais i dderbyn y newidiadau a **mabwysiadu**'r CDS o fewn **8 wythnos** i dderbyn Adroddiad yr Arolygwyr.

Sut allaf i ymgysylltu?

7.28 Bydd Adroddiad yr Arolygwyr ar gael i'w weld ar wefan y **C-BC** ac mewn lleoliadau a ddynodir yn y CC. Hefyd bydd y **C-BC** yn cyhoeddi **mabwysiad** y CDS mewn datganiad **mabwysiadu**, a fydd yn gosod yn eglur y dyddiad y **mabwysiad**wyd y cynllun. Bydd copïau o'r CDS **mabwysiedig**, y datganiad **mabwysiadu** a'r Adroddiad AG i'w gweld yn lleoliadau'r Cynllun Adnau ac ar wefan y **C-BC**.

7.29 Os nad ydych yn fodlon ar broses y cynllun, mae gennych **chwe wythnos** o ddyddiad y **mabwysiadu** i gyflwyno sialens gyfreithiol i'r Uchel Lys. Mae'n rhaid i unrhyw sialens gyfreithiol **ymwneud â gweithdrefn y cynllun ac nid cynnwys y cynllun**. Daw'r CDS i rym y dydd y caiff ei **fabwysiadu** a bydd yn **ffurfio rhan o'r cynllun datblygu** ar gyfer yr ardal a'i ddefnyddio i

Monitro ac Adolygu

Beth yw'r cam hwn?

7.30 Unwaith bydd y CDS wedi ei **fabwysiadu**, bydd y **C-BC** yn defnyddio **fframwaith fonitro**'r cynllun a dechrau sylwi ar effeithiau'r cynllun wrth gyflawni ei amcanion. Cynhwysir yr holl wybodaeth fonitro o fewn **Adroddiad Monitro Blynyddol** (AMB) y **C-BC**. Mae'n rhaid cyhoeddi'r AMB erbyn Hydref 31ain bob blwyddyn yn dilyn **mabwysiadu**'r cynllun a hefyd dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7.31 Bydd yr AMB yn asesu:

- Cyflenwad strategaeth y cynllun
- Gweithrediad polisiau strategol
- Datblygiad dosraniadau strategol
- Darpariaeth seilwaith
- Unrhyw weithredu arall, os yn angenrheidiol

7.32 Mae'n rhaid **adolygu**'r CDS gan y **C-BC** o leiaf bob **chwe blynedd** o'r dyddiad pryd **mabwysiad**wyd y cynllun. Gall yr adolygiad hwn gymryd lle ynghynt a bydd yn dibynnu ar lawer o bethau yn cynnwys casgliadau yn yr AMB. Ar ôl cychwyn adolygu'r cynllun bydd y **C-BC** yn paratoi **Adroddiad Adolygu** (AA). Bydd yr adroddiad yn gosod allan beth sy'n gweithio'n dda a'r materion sy'n rhaid eu trafod pan fydd CDS newydd yn cael ei baratoi.

Sut allaf i ymgysylltu?

7.33 Gellir gwahodd grwpiau allweddol, sydd wedi eu heffeithio arnyn nhw gan y CDS, i gyflwyno sylwadau ar newidiadau diweddar yn yr ardal a gofnodir fel rhan o'r AMB a'r AA. Bydd cadw i fyny gyda'r ddwy ddogfen yma'n eich helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a'i peidio, a beth fydd y **C-BC** yn ei wneud i ddelio ag unrhyw faterion. Pan fydd y **C-BC** wedi cyhoeddi ei AA a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru, yna bydd CC newydd yn cael ei baratoi, fel arfer o fewn **6 mis**. Pan fydd y CC wedi cael cytundeb yna bydd y **broses paratoi cynllun yn dechrau eto** i gael CDS newydd.



8. Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC)



8.1 Unwaith bydd CDS wedi ei **fabwysiadu**, gall yr Awdurdodau Cynllunio Lleol o fewn y rhanbarth ddechrau gweithio ar CDLIC. Gellir paratoi'r cynlluniau hyn yn unigol, neu ar y cyd gan ddau neu fwy o awdurdodau o fewn yr un rhanbarth. Disgwylir y byddant yn cymryd **oddeutu 2 flynedd** i'w paratoi

Beth yw Cynllun Datblygu Lleol Cryno?

8.2 Bydd y CDS yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth a bydd yn cynnwys y **strategaeth ofodol** a graddfa a lleoliad twf tai a chyflogaeth ar gyfer pob un **ACLI**, a defnydd tir arall, fel bo'n addas. Gan fod y wybodaeth hon yn y CDS eisoes, **nid oes angen ail-asesu'r angen er enghraifft am strategaeth ofodol a graddfa twf a lleoliad tai a chyflogaeth** yn ystod paratoi'r CDLIC.



Dyma pam mae'n **bwysig eich bod yn ymgysylltu'n llwyr yn y broses CDS** oherwydd bydd y CDS yn effeithio'n uniongyrchol ar gynnwys y CDLIC.


8.3 Bydd y CDLIC yn gynllun datblygu symlach, byrrach ac â mwy o ffocws, yn delio â **chlyfnod o ddeng mlynedd o leiaf**. Bydd y cynllun yn nodi dosraniadau llai a mwy lleol yn ardal eich awdurdod a fydd wedi eu gosod o fewn fframwaith y CDS. Hefyd bydd y CDLIC yn cynnwys nifer o bolisiau a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio lleol.

Beth yw'r prif gamau yn y broses CDLIC a sut allaf i gymryd rhan?

8.4 Mae proses CDLIC yn debyg iawn i broses paratoi CDLL a welir ym Mhennod 9 y canllaw hwn. Fodd bynnag, mae **un prif wahaniaeth**:

Ni chynhelir ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn ystod proses paratoi'r CDLIC felly bydd yn rhaid i chi roi eich sylwadau ar y materion allweddol sy'n effeithio ar eich cymuned fel rhan o'r broses CDS. Gosodir y Strategaeth a Ffefrir fel rhan o'r broses CDS.

Diagram 5: Camau Allweddol yn y broses CDLIC



8.5 Bydd y camau paratoi cynllun sydd ar ôl yn y broses CDLIC yn dyblygu'r broses CDLL a welir yn Niagram 6 a bydd yn cychwyn gyda'r ymgynghoriad Cynllun Adnau.



9. Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)



9.1 Gan nad oes CDS na CDLIC mewn grym yn gyfredol, efallai eich bod yn meddwl sut y gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar lefel leol ar hyn o bryd? Am dros ddegawd go dda, mae wedi bod yn ofyn statudol i Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi ac adolygu eu **Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)**, un ai'n unigol neu ar y cyd gan ddau neu fwy awdurdod. Disgwylir i CDLI gael eu paratoi a'u **mabwysiadu** mewn **oddeutu 3 blynedd a hanner**.

Beth yw Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)?

9.2 Ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn, mae CDLI wedi eu paratoi yn y rhan helaeth o Gymru gyda llawer o awdurdodau'n gweithio ar ddiweddarau eu cynlluniau trwy baratoi CDLI **amnewid**.



Nes bydd CDS wedi eu **mabwysiadu**, bydd gwaith ar CDLI amnewid yn parhau ar y cyd gyda gwaith ar y CDS. Mae'n bwysig eich bod yn **cadw i fyny ar hynt y cynllun yn eich ardal oherwydd efallai bydd yn rhaid i chi ymgysylltu â'r ddau gynllun ar yr un pryd**. Er enghraifft, gall CDS fod ar y Cam Strategaeth a Ffeirir tra bo'r CDLI ar gam hwyrach fel Adnau neu Archwiliad. Efallai bydddech yn dymuno **cofrestru'ch diddordeb** gyda'r corff perthnasol sy'n creu'r cynlluniau pan fydd gwaith yn cychwyn ar CDS (y **C-BC** fydd y corff sy'n creu'r cynllun) a / neu CDLI (yr **ACLI** fydd y corff sy'n creu'r cynllun) yn eich ardal. Trwy gofrestru eich diddordeb, fe'ch ychwanegir at restr bostio a fydd yn sicrhau eich bod yn cael diweddariadau ar hynt y cynllun, a'ch cyngori ynghylch â phwy i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon. Pan fydd CDS wedi eu **mabwysiadu**, bydd CDLIC byrrach ac â mwy o ffocws yn cael eu paratoi fel yr esboniwyd yn Adran 8.

9.3 Mae CDLI yn gosod cynigion yr awdurdod ar bolisiau defnydd tir ar gyfer datblygiad tir yn y dyfodol yn ei ardal, **dros gyfnod o bymtheng mlynedd**.

- Cynnwys gweledigaeth, nodau ac amcanion
- **Strategaeth ofodol** a thwf / hierarchaeth aneddiadau
- Llunio a thywys cynigion datblygiadau i leoliadau **cynaliadwy** a darparu'r raddfa a lleoliad y twf sydd ei angen dros **gyfnod y cynllun**, ar gyfer nifer o ddefnyddiau tir yn cynnwys tai, cyflogaeth, manwerthiant ac eraill
- Cynnwys polisiau **rheoli datblygu** sy'n benodol i ardal, safle a phwnc ac a fydd yn cynnwys polisiau ar dai, trafnidiaeth, ynni adnewyddadwy, **creu lleoedd** a dyluniad, a seilwaith lleol
- Darparu'r fframwaith ar gyfer Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) a Chynlluniau Lleoedd

Beth yw'r prif gamau yn y Broses CDLI a sut allaf i gymryd rhan?

9.4 Rhoddir prif gamau proses CDLI a sut y gallwch gymryd rhan yn y diagram gyferbyn:




Diagram 6: Camau Allweddol yn y Broses CDLI



The Delivery AgreementA

Beth yw'r cam hwn?

9.5 Bydd pob **Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)** yn paratoi Cytundeb Cyflawni (CC) ar gychwyn y broses paratoi'r cynllun. Mae dwy ran i'r CC:

1. **Amserlen** ar gyfer paratoi CDS
2. **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)**

9.6 Mae'r CC yn bwysig oherwydd mae'n gosod yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun ac yn nodi pwy all ymgysylltu â'r broses, ar ba gam, a'r dulliau o ymgynghori. Hefyd bydd y CC yn esbonio sut bydd ymatebion i'r ymgynghoriadau ar y cynllun yn cael eu hystyried, yr adborth a gewch a sut gellir cael gfael ar hwn.

Sut allaf i ymgysylltu?

9.7 Mae'n bwysig eich bod yn dod yn gyfarwydd â'r CC a chadw i fyny ag unrhyw welliannau. Efallai y byddech yn dymuno **cofrestru eich diddordeb** gyda'r **ACLI** er mwyn eich ychwanegu at gronfa ddata ymgynghoriad a rhoi diweddariadau i chi ar hynt y cynllun. Bydd y CC ar gael i'w archwilio gan yr **ACLI** ar ei wefan ac yn y prif swyddfeydd. Yr **ACLI** fydd yn penderfynu ar y dulliau ymgysylltiad a ddefnyddir. Yn gyffredinol, bydd y rhain yn cynnwys fforymau cyhoeddus, cyfarfodydd ac arddangosfeydd lleol, sesiynau galw i mewn, grwpiau ffocws, cylchlythyrau, taflenni a phosteri a dulliau ymgysylltu ar y we (Facebook, Trydar).

Ymgynghoriad ar y Strategaeth a FfefrirA

Beth yw'r cam hwn?

9.8 Bydd y Strategaeth a Ffefrir a thystiolaeth gefnogol, sy'n cynnwys yr AG/AAS a'r ARhC (os yn berthnasol), ar gael mewn ymgynghoriad cyhoeddus am **o leiaf 6 wythnos**.

9.9 Dylai'r Strategaeth a Ffefrir osod y:

- Materion, y weledigaeth a'r amcanion cyfredol
- Twf poblogaeth, tai a swyddi a ffefrir
- Opsiynau twf strategol
- **Strategaeth ofodol** eang
- Safleoedd allweddol a / neu ardaloedd i'w datblygu (ble bo hynny'n briodol)
- Polisiâu yn seiliedig ar bwnc a pholisiâu defnydd tir lleol
- Cefnogir y Strategaeth a Ffefrir gan nifer o ddogfennau â sail tystiolaeth yn cynnwys y safleoedd / ardaloedd sydd wedi eu cynnig i'w datblygu yng **Nghofrestr y Safleoedd Ymgeisiol**.

Sut allaf i ymgysylltu?

Mae hwn yn gam pwysig i chi a'ch cymuned. Hwn fydd eich cyfle i gyflwyno eich sylwadau i'r **ACLI** a dylanwadu'n gynnar yn y broses ar y cynllun y byddan nhw'n ei gynhyrchu. Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno unrhyw sylwadau cyn y dyddiad terfynol a osodir gan yr **ACLI**.

9.10 Fel rhan o'r ymgynghoriad, cewch roi sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir a'r dystiolaeth gefnogol. Cyhoeddir manylion llawn yr ymgynghoriad mewn **Datganiad o Faterion Cyn-Adnau**. Bydd hwn ar gael i'w weld mewn copi caled ym mhrif swyddfeydd yr **ACLI** ac mewn lleoliadau eraill a benodir yn y CC ac ar wefan yr **ACLI**.



9.11 Os byddwch yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffeirir bydd yn cael ei gynnwys yn **Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol** yr **ACLI**. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y prif faterion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad a sut fyddan nhw'n dylanwadu ar y cynllun wrth iddo symud ymlaen. Bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgynghoriad Strategaeth a Ffeirir ddod i ben.

Yr Ymgynghoriad Cynllun AdnauA

Beth yw'r cam hwn?

9.12 Y Cynllun Adnau yw drafft llawn y CDLI, ac ystyrir y cynllun yn '**gadarn**' gan yr **ACLI** a'i fod yn gallu cael ei **fabwysiadu**. Bydd y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol, sy'n cynnwys yr AG/AAS a'r ARhC llawn, ar gael mewn ymgynghoriad cyhoeddus am **o leiaf 6 wythnos**.

9.13 Dylai'r Cynllun Adnau osod allan y:

- Materion, y weledigaeth a'r amcanion
- **Strategaeth ofodol** derfynol
- Graddfa twf y boblogaeth, tai a swyddi
- Safleoedd a dosraniadau lleol
- Polisiâu lleol ar amrywiaeth o bynciau yn cynnwys tai, cyflogaeth, manwerthiant, trafnidiaeth, dynodiadau amgylcheddol, ynni, mwynau a gwastraff
- Fframwaith fonitro
- Map cynigion
- Cefnogir y Cynllun Adnau gan nifer o ddogfennau â thystiolaeth yn cynnwys asesiad llawn a chyfiawnhad ar gyfer nifer o safleoedd / ardaloedd a gynigiwyd i'w datblygu yng **Nghofrestr y Safleoedd Ymgeisiol**.

Sut allaf i ymgysylltu?

9.14 Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwch yn gallu gwneud sylw ar y Cynllun Adnau a'r dystiolaeth gefnogol. Cyhoeddir manylion llawn yr ymgynghoriad mewn **Datganiad o Faterion Adnau**. Bydd y datganiad ar gael i'w weld ym mhrif swyddfeydd yr **ACLI** ac ar ei wefan.

9.15 Hefyd bydd y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol ar gael i'w weld ym mhrif swyddfeydd yr **ACLI** ac ar ei wefan. Efallai bydd copïau eraill ar gael mewn lleoliadau a benodir yn y CC.

9.16 Os ydych yn dymuno cynnig sylwadau i'r **ACLI** ar y Cynllun Adnau, yna mae'n rhaid cyflwyno'r sylwadau cyn dyddiad terfynol yr ymgynghoriad er mwyn ystyried eu bod '**wedi eu cyflwyno**'. Gelwir y sylwadau hyn yn **sylwadau** a bydd ffurflen safonol ar gael o'r **ACLI** i helpu gydag unrhyw sylwadau yr hoffech eu cynnig. Bydd yr holl sylwadau sydd '**wedi eu cyflwyno**' ar y Cynllun Adnau yn cael eu hystyried gan yr **ACLI** mewn **diweddariad i'r Adroddiad Ymgynghoriad** ar y cam Strategaeth a Ffeirir. Sylwadau sydd '**wedi eu cyflwyno**' yw rhai sydd **wedi eu cyflwyno** o fewn yr amserlenni gofynnol ac sy'n berthynol yn uniongyrchol i'r polisiâu a'r cynigion a gynhwysir o fewn y cynllun datblygu sy'n destun i ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Ymgynghoriad Adnau orffen, a bydd yn llunio rhan o'r dogfennau cyflwyno (a restrir ym Mhennod 6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) i'w harchwilio.

9.17 Bydd copi o'r holl sylwadau ar gael i'w weld yn yr un lleoliadau â'r Strategaeth a Ffeirir ac ar wefan yr **ACLI**. Yn dilyn yr ymgynghoriad Adnau, bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r cynllun yn fater i'r Arolygydd annibynnol i'w hystyried pan brofir y cynllun mewn archwiliad.



Archwiliad CyhoeddusA

Beth yw'r cam hwn?

9.18 Unwaith fydd yr ymgynghoriadau ffurfiol drosodd, cyflwynir y cynllun a'i dystiolaeth gefnogol i archwiliad cyhoeddus. Apwyntir Arolygydd / Arolygwyr ar ran Gweinidogion Cymru i gynnal **archwiliad annibynnol** o'r cynllun. Bydd yr archwiliad yn asesu a yw gofynion paratoi'r cynllun wedi eu cyflawni ac a yw'r CDLI yn cyflawni'r **tri phrawf** o **'gadernid'** a osodir ym Mhennod 6 Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

9.19 Bydd yr archwiliad yn cynnwys **sesiynau gwrandawriad llafar sef trafodaeth gyhoeddus** o amgylch bwrdd ar y materion a nodwyd gan yr Arolygydd / Arolygwyr ar ôl iddo / iddynt ddarllen y dogfennau a gyflwynwyd, ynghyd â'ch sylwadau chi. Bydd yr archwiliad yn sicrhau bod y cynllun yn seiliedig ar feddwl a gwybodaeth **'gadarn'** a bod yr holl bryderon wedi eu hystyried.

Sut allaf i ymgysylltu?

9.20 Pan gyflwynir y CDLI i archwiliad cyhoeddus, rhoddir cyhoeddusrwydd i hyn gan yr **ACLI**. Anfonir y dogfennau cyflwyno i'r Arolygydd / Arolygwyr a byddant yn cynnwys yr Adroddiad Ymgynghoriad wedi ei ddiweddarau, ac unrhyw sylwadau a wnaethoch ar y Cynllun Adnau. Bydd y dogfennau cyflwyno ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd yr **ACLI** ac ar ei wefan. Efallai bydd copïau eraill ar gael mewn lleoliadau a benodwyd yn y CC.

9.21 Yn seiliedig ar ddarlleniad yr Arolygydd / Arolygwyr o'r dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd, bydd yr Arolygydd / Arolygwyr yn penderfynu pa faterion a drafodir yn yr archwiliad a sut y ceir eu clywed. Gall sesiynau gwrandawriad yr archwiliad barhau am sawl wythnos neu fwy. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gyflwyno'r cynllun a'r weithdrefn archwilio ar gael i'w [gweld yma](#) gan Benderfyniadau Cynlluniau Amgylcheddol Cymru (PCAC).

9.22 O leiaf **chwe wythnos** cyn i'r archwiliad gychwyn bydd **Swyddog Rhaglen** yr archwiliad yn cysylltu â chi a gofyn a ydych am gymryd rhan. Gallwch ond gymryd rhan os ydych wedi cyflwyno sylwadau **'wedi eu cyflwyno'** i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn y sesiwn / sesiynau gwrandawriad, gallwch ddewis p'un ai i ddibynnu ar **ddatganiad ysgrifenedig** mewn ymateb i gwestiynau'r Arolygydd / Arolygwyr a / neu drafod y materion **yn llafar** yn y sesiynau gwrandawriad. Mae'r ddau ddull yn gyfartal. Mae'n bwysig pwysleisio y gallwch fynychu'r archwiliad a gwrando ar yr achos hyd yn oed os nad ydych yn cymryd rhan.

9.23 Bydd gwefan yr archwiliad yn cynnwys yr holl wybodaeth fydd ei hangen arnoch ynghylch yr archwiliad. Mae'n **bwysig eich bod yn cadw i fyny â'r broses archwiliad** i fonitro'r datblygiadau a'r diweddariadau mwyaf diweddar.

Adroddiad yr Arolygwyr a mabwysiadu

Beth yw'r cam hwn?

9.24 Ar ddiwedd sesiynau gwrandawriad yr archwiliad, bydd yr Arolygydd / Arolygwyr yn paratoi adroddiad ar **'gadernid'** y cynllun a gyflwynwyd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r CDLI a'r rheswm am y newidiadau hyn. Bydd y canlyniadau yn **Adroddiad yr Arolygwyr** yn **orfodol** ar yr **ACLI** a fydd yn gorfod gwneud y newidiadau a argymhellwyd. Bydd yr **ACLI** yn cynnal pleidlais i dderbyn y newidiadau a **mabwysiadu**'r CDLI o fewn **8 wythnos** o dderbyn Adroddiad yr Arolygwyr.



Sut allaf i ymgysylltu?

9.25 Bydd Adroddiad yr Arolygwyr ar gael i'w weld ar wefan yr **ACLI** ac mewn lleoliadau a benodwyd yn y CC. Hefyd bydd yr **ACLI** yn cyhoeddi **mabwysiad** y CDLI mewn datganiad **mabwysiadu**, fydd yn gosod yn eglur y dyddiad y **mabwysiadu** ydych chi'n cynllun. Bydd copïau o'r CDLI a fabwysiadwyd, y datganiad **mabwysiadu** a'r Adroddiad AG ar gael i'w gweld mewn lleoliadau'r Cynllun Adnau ac ar wefan yr **ACLI**.

9.26 Os nad ydych chi'n fodlon ar broses y cynllun mae gennych **chwe wythnos** o ddyddiad y **mabwysiadu** i gyflwyno sialens gyfreithiol i'r Uchel Lys. Mae'n rhaid i unrhyw sialens gyfreithiol ymwed â **gweithdrefn y cynllun ac nid â chynnwys y cynllun**. Bydd y CDLI yn dod i rym y diwrnod y caiff ei **fabwysiadu** a bydd yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal a'i ddefnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn yr **Awdurdod Cynllunio Lleol**.

Monitro ac Adolygu

Beth yw'r cam hwn?

9.27 Unwaith fydd y CDLI wedi ei **fabwysiadu**, bydd yr **ACLI** yn defnyddio **fframwaith fonitro'r** cynllun a dechrau sylwi ar effeithiau'r cynllun wrth gyflawni ei amcanion. Cynhwysir yr holl wybodaeth fonitro o fewn **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)** yr **ACLI**. Mae'n rhaid cyhoeddi'r AMB erbyn Hydref 31ain bob blwyddyn yn dilyn **mabwysiadu**'r cynllun, a dylid hefyd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

9.28 Bydd yr AMB yn asesu:

- Cyflenwi strategaeth y cynllun
- Gweithredu polisiau lleol
- Datblygu dosraniadau lleol
- Cyflenwi seilwaith
- Unrhyw weithredu arall, os yn angenrheidiol

9.29 Mae'n rhaid i'r **ACLI adolygu'r** CDLI o leiaf bob **pedair blynedd** o ddyddiad **mabwysiadu**'r cynllun. Gall yr adolygiad hwn gymryd lle ynghynt a bydd yn dibynnu ar lawer o bethau yn cynnwys canlyniadau'r AMB. Yn dilyn cychwyn adolygu'r cynllun, bydd yr **ACLI** yn paratoi **Adroddiad Adolygu (AA)**. Bydd yr adroddiad yn gosod beth sy'n gweithio'n dda a'r materion sy'n rhaid delio â nhw pan fydd CDLI newydd yn cael ei baratoi.

Sut allaf i ymgysylltu?

9.30 Gellir gwahodd grwpiau allweddol a effeithir arnynt gan y CDLI i gyflwyno sylwadau ar newidiadau diweddar yn yr ardal a gofnodwyd fel rhan o'r AMB a'r AA. Bydd cadw i fyny â'r ddwy ddogfen yma'n eich helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a'i peidio, a beth fydd yr **ACLI** yn ei wneud i ddelio ag unrhyw faterion. Pan fydd yr **ACLI** wedi cyhoeddi ei AA a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru, yna bydd CC newydd yn cael ei baratoi, fel arfer o fewn 6 mis. Pan fydd cytundeb ar y **CC bydd y broses paratoi cynllun yn dechrau eto** ar gyfer CDLI amnewid.



10. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a Chynlluniau Lleoedd



Canllawiau Cynllunio Atodol

10.1 Dim ond polisïau mewn cynllun datblygu **mabwysiedig** a ellir eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir hefyd defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) fel **Ystyriaeth Berthnasol** ar yr amod ei fod wedi ei gysylltu ac yn gyson â'r polisïau yn y cynllun datblygu **mabwysiedig**. **Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid yw'n destun i'w archwilio.**

10.2 Mae CCA yn cael eu paratoi gan yr **ACLI** i ddarparu canllawiau a manylion ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio, ac mae'n cefnogi nifer o bolisïau ar bynciau yn y cynllun datblygu **mabwysiedig**, yn cynnwys polisïau ar ddylunio, treftadaeth, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. Gall CCA ddarparu manylion ychwanegol ar y math o ddatblygiad a ddisgwylir mewn ardal a ddosrannwyd yn y cynllun datblygu a gall gymryd ffurf **brîff datblygu** neu **brif gynllun** manylach.



Cynlluniau Lleoedd

10.3 Efallai eich bod wedi clywed am Gynlluniau Lleoedd neu fod gennych Gynllun Lle wedi ei **fabwysiadu** eisoes yn eich cymuned. Os na, mae Cynllun Lle yn ymwneud â chyflenwi canlyniadau lleol ac mae'n cael ei baratoi gan y gymuned i'w ddefnyddio gan y gymuned.

10.4 Gall Cynlluniau Lleoedd fel CDS ddarparu manylion / cyd-destun lleol pwysig a chanllawiau ar ystod o bynciau / safleoedd sy'n effeithio ar gymunedau. Mae'n bwysig i ymgysylltu a chyflwyno sylwadau i'r awdurdod sy'n creu'r cynlluniau pan fyddant yn ymgynghori ar y CDS drafft a gadael iddynt wybod beth yw eich safbwyntiau chi.

Fel CCA **nid yw** Cynlluniau Lleoedd **yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu** ac mae'n rhaid iddo weithio o fewn y fframwaith gynllunio a osodwyd gan y cynllun datblygu **mabwysiedig**. Golyga hyn bod yn rhaid i Gynlluniau Lleoedd gyd-ymffurfio â CDLL, neu CDS neu CDLLC y dyfodol, a bydd yn ychwanegu manylder i'r hyn sy'n bodoli eisoes yn y cynlluniau hyn.

Beth yw diben Cynllun Lle?

10.5 Gall Cynlluniau Lleoedd ganolbwyntio ar ardal Cyngor Tref neu Gymuned, pentref unigol neu grŵp o bentrefi neu safleoedd datblygu unigol..

10.6 Diben Cynllun Lle yw:

- Casglu tystiolaeth am eich ardal a deall y materion sy'n wynebu'r ardal
- I gael Cyngorau Tref a Chymuned, busnesau a chymunedau i weithio gyda'i gilydd gyda'r **Awdurdod Cynllunio Lleol** i helpu cynllunio ar gyfer dyfodol yr ardal neu safle datblygu
- Cytuno ar sut rydych chi am i'ch ardal neu'r safle fod yn y dyfodol a gweithio tuag at hyn trwy gynllun gweithredu neu bolisiau a ddefnyddir i helpu penderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol.

Beth yw'r manteision o gael Cynllun Lle?

10.7 Mae llawer o fanteision i bawb sy'n ymwneud â'r broses a rhai o'r prif fanteision o gael Cynllun Lle ar gyfer eich cymuned yw:

- Helpu sicrhau neu ddsbarthu arian ar gyfer prosiectau a nodir yn y Cynllun Lle neu a gasglwyd trwy **rwymedigaethau cynllunio**
- Helpu penderfynu ar geisiadau cynllunio'r dyfodol ac ymgysylltu â datblygwyr
- Adeiladu gwybodaeth am y broses gynllunio a darparu mwy o ymgysylltiad o'r gymuned yn ystod y broses cynllun datblygu
- Gwella perthynas waith rhwng yr holl grwpiau cymunedol a'r **Awdurdod Cynllunio Lleol**
- Gwella llesiant y gymuned a bywiogrwydd yr ardal er budd yr holl drigolion.



Sut allaf ddechrau gweithio ar Gynllun Lle?

10.8 Cyn dechrau gweithio ar baratoi Cynllun Lle mae'n bwysig bod gennych ddealltwriaeth o'r broses yn ogystal â'r adnoddau gofynnol a faint o amser gall hyn gymryd. Fe'ch cynghorir i ddechrau trwy gysylltu â'r Tîm Cynllunio yn eich **Awdurdod Cynllunio Lleol** a darllen y canllawiau ar Gynlluniau Lleoedd a gyhoeddir gan Gymorth Cynllunio Cymru ar eu [gwefan yma](#).

Unwaith fydd y Cynllun Lle wedi ei ddrafftio a phawb yn y broses wedi cytuno arno, dylid ei **fabwysiadu** gan yr **Awdurdod Cynllunio Lleol** fel **CCA** i'w ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio lleol.



11. Rôl aelodau etholedig yn y broses gynllunio

11.1 Mae gan aelodau etholedig rôl allweddol wrth gefnogi eu cymunedau i ymgysylltu â'r broses gynllunio. Gall aelodau gynorthwyo trigolion a sefydliadau i ddylanwadu ar ddyfodol eu cymunedau trwy eu hannog i fynegi eu safbwyntiau yn y broses creu cynlluniau. Mae gan Gyngorwyr rôl hanfodol wrth hwyluso ymgysylltiad gyda'u cymunedau wrth gynhyrchu cynlluniau datblygu.

11.2 Mae'n rhaid i aelodau etholedig wneud penderfyniadau er budd ehangach y cyhoedd a chael eu gweld yn gwneud hynny. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, dylent gymryd gofal eu bod yn cael eu gweld yn gweithredu'n deg ac yn wrthrychol. Hefyd mae'n rhaid iddynt osgoi trin un unigolyn neu ardal yn fwy ffafriol nag un arall. Byddai methu gwneud hyn yn torri Côt Ymddygiad yr awdurdod perthnasol. Gall hyn olygu cymryd camau disgyblu yn erbyn Aelod gan yr Awdurdod a bod yn sail i gwyno i'r Ombwdsman. Mae'n rhaid i gyngorwyr cymuned a thref sy'n mynychu cyfarfod i drafod mater ble mae ganddynt fuddiant, ddatgelu hyn ar gychwyn y drafodaeth, neu pan fo'r buddiant yn dod yn amlwg. Yn dibynnu ar natur y buddiant, efallai gall aelod siarad ond peidio â phleidleisio ar y mater, neu efallai bydd yn ofynnol iddo/iddi dynnu'n ôl rhag ystyried y mater yn gyfan gwbl.

11.3 Nid yw'r Côt yn atal cyngorwyr cymuned a thref rhag ystyried safbwyntiau eu hetholwyr ac yna dod â'r rhain i sylw'r **ACLI**. Yr hyn sy'n angenrheidiol yw osgoi rhagfarnu'r mater cynllunio, neu wneud datganiad a ellid ei weld fel rhagfarnu'r mater, cyn ystyriaeth lawn o'r materion. Dylai'r bobl â buddiant siarad gyda'u haelod(au) etholedig lleol i ddeall mwy lle bo angen.

Cysylltiadau defnyddiol

11.4 Mae'r adnoddau canlynol yn darparu mwy o wybodaeth ar rôl aelod etholedig yn y broses gynllunio:

Llawlyfr Cynllunio Canllaw ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol, cyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: <https://www.wlga.cymru/planning-handbook-a-guide-for-local-authority-members>

Canllaw'r Cyngorydd Da Ar gyfer Cyngorwyr Cymuned a Thref, ar gael trwy Un Llais Cymru: <http://www.unllaescymru.org.uk/OVW/Web-CYM/UserFiles/Files/Good%20Practice%20General/Good%20Councillors%20Guide%202017%20Cym.PDF>



12. Cysylltiadau a Gwybodaeth Ychwanegol

Llywodraeth Cymru (LIC)

Cangen Cynlluniau Datblygu, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn (switsfwrdd): 0300 0604400

Gwefan: <https://llyw.cymru/cynlluniau-datblygu>

Ebost: customerhelp@gov.wales

Planning Environment Decisions Wales (PEDW)

Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Phone (switchboard): 0300 0604400

Website: <https://gov.wales/planning-and-environment-decisions-wales>

E-mail: cymorth@llyw.cymru

Dod o hyd i'ch Awdurdod Cynllunio Lleol

Mae'r porth cynllunio yn darparu gwasanaeth defnyddiol i ddod o hyd i'ch **Awdurdod Cynllunio Lleol** trwy chwilio am enw tref neu gôd post. Gallwch gael gafael ar y gwasanaeth ar-lein hwn yma: <https://www.planningportal.co.uk/find-your-local-planning-authority>

Cymorth Cynllunio Cymru (CCC)

12 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 02920 625 004

Gwefan: <https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy>

Siarter Creu Lleoedd

Am fwy o wybodaeth am Greu Lleoedd a'r siarter **Creu Lleoedd**, ewch i wefan Comisiwm Dylunio Cymru yn: <http://cy.dcfw.org/creu-lleoedd/siarter-creu-lleoedd/>

Cynlluniau Lleoedd

I gael canllawiau ar baratoi Cynlluniau Lleoedd ewch i www.placeplans.org.uk/cy/

Cynllunio a Chreu Lleoedd

Canllaw wedi ei gynhyrchu gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/01/FG-Planning-Bite-size-for-TC-and-Consultants-cym.pdf>



13. Geirfa

Awdurdodau Lleol / Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI)	Yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o weithredu a gwasanaethau mewn ardal Awdurdod lleol, yn cynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.
Briff Datblygu	Wedi ei baratoi cyn cyflwyno cais cynllunio ac yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer safleoedd mawr a chymhleth. Mae briff datblygu'n cynnwys gwybodaeth am y safle a'r math o le a fydd yn cael ei greu.
Cadarn / Cadernid	Ystyrir bod cynllun datblygu yn gadarn gan Arolygydd annibynnol os bydd yn cyflawni'r gofynion gweithdrefnol a'r tri Phrawf o Gadernid a osodir ym Mhennod 6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.
Creu Lleoedd	Dull crwn o gynllunio a dylunio datblygiad o leoedd gyda ffocws ar ganlyniadau cadarn haol. Ceir gwybodaeth ychwanegol ar y dull o greu lleoedd yn y system gynllunio yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC).
Cyd-bwyllgorau Corfforedig (C-BC)	Yn cynnwys Arweinwyr o bob un cyngor yn y pedwar rhanbarth. Y C-BC fydd y corff sy'n gwneud penderfyniadau, gyda'r cyfrifoldeb dros gynnwys CDS.
Cyfnod y Cynllun	Y cyfnod amser sy'n berthnasol i'r cynllun ac wedi ei benodi yn nheitl y cynllun.
Cynaliadwy / Datblygiad cynaliadwy / dyletswyddau datblygiad cynaliadwy	Datblygiad cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu i gyflawni anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n ofynnol dan ddyletswydd datblygiad cynaliadwy bod pob corff cyhoeddus yn cynnal datblygiadau cynaliadwy trwy osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.
Deddfwriaeth Sylfaenol ac Is-Ddeddfwriaeth	Mae Deddfwriaeth Sylfaenol yn disgrifio deddfau a basiwyd gan gyrff deddfwriaethol yn y DU (e.e. Dau Dŷ'r Senedd a Senedd Cymru) tra bo Is-ddeddfwriaeth yn cyfeirio at ddeddfau wedi eu pasio gan weinidogion y Llywodraeth ar ffurf offerynnau statudol.
Gorfodol	Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a / neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyflawni'r newidiadau a osodir yn Adroddiad yr Arolygwyr
Mabwysiadu / mabwysiadwyd	Y pwynt ble mae'r CDLI / CDS wedi ei gwblhau ac yn berthnasol i'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae mabwysiadu 'n digwydd ar ôl i un ai'r ACLI neu'r C-BC (pa bynnag un sy'n berthnasol) bleidleisio'n ffurfiol ar benderfyniad i fabwysiadu 'r cynllun yn dilyn derbyn adroddiad cadarn haol gan yr Arolygydd.



Polisiâu Rheoli Datblygu	Yn gosod safonau a meini prawf lleol ble asesir ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a defnydd tir ac adeiladau yn eu herbyn.
Prif Gynllun	Dogfen gynllunio ar gyfer datblygu safle ac yn darparu gwybodaeth am y cynllun ar y llawr er mwyn tywys twf a datblygiad yn y dyfodol. Mae'r broses prif gynllun yn ymwneud â gwneud cysylltiadau rhwng adeiladau, safleoedd cymdeithasol a'r amgylchedd lleol.
Rhanbarth / rhanbarthol	Ardal sy'n cynnwys ardaloedd lluosog Awdurdod Cynllunio Lleol gyda nodweddion yn gyffredin. Mae pedwar rhanbarth penodol yng Nghymru – Gogledd, Canolbarth, De Orllewin a De Ddwyrain (gweler y map, tudalen 16).
Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhwymedigaeth cyfreithiol (S106) a wneir er mwyn lleihau effaith cynnig datblygu.
Sail Tystiolaeth	Casgliad o astudiaethau, adroddiadau technegol, asesiadau a data arall sy'n cyfiawnhau'r penderfyniadau polisi a wneir yn y cynllun.
Seilwaith Gwyrdd	Rhwydwaith o leoedd gwyrdd a nodweddion aml-weithredol mewn ardaloedd trefol a gwledig sy'n darparu ansawdd bywyd a buddiannau amgylcheddol i gymunedau.
Strategaeth Ofodol	Yn nodi ble lleolir datblygiad yn y dyfodol a pham a sut y bydd yn cyflawni'r prif faterion mae'r cynllun yn ceisio delio â nhw. Ceir gwybodaeth ychwanegol ar y strategaeth ofodol ym Mhennod 5 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.
Swyddog Rhaglen	Unigolyn sy'n gweithio ar ran yr Arolygydd Cynllunio i gydlynu trefniadau archwiliad o ddydd i ddydd.
Ymgysylltiad Cymunedol / Cyhoeddus	Yng nghyd-destun paratoi cynllun datblygu mae ymgysylltiad cymunedol yn cyfeirio at weithgaredd neu gyfres o weithgareddau sy'n ceisio safbwyntiau pobl leol wrth ddatblygu'r cynllun. Mae ymgysylltiad cynnar ym mhroses cynllun datblygu o fudd i bawb.
Ystyriaeth Berthnasol	Mater a ddylid ei ystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio neu apêl yn erbyn penderfyniad cynllunio.
Wedi Cyflwyno	Cyflwyniad wedi ei gyflwyno yw un sydd wedi ei gyflwyno o fewn yr amserlenni gofynnol ac yn berthynol yn uniongyrchol i'r polisiâu a'r cynigion a gynhwysir o fewn y cynllun datblygu yn dibynnu ar ymgynghoriad.



Diolch

Hoffai Llywodraeth Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru gydnabod a rhoi diolch i'r sefydliadau canlynol am eu hamser a'u mewnbwn i'n helpu i baratoi'r Canllaw Cymunedol hwn:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Iaith Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Un Llais Cymru
- Penderfyniadau Cynllunio Amgylcheddol Cymru (PCAC)
- Race Council Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)
- Cyngor Abertawe